Wyt ti wedi gwneud addunedau ar gyfer y flwyddyn newydd? Efallai rwyt am drio bwyta llai o greision, gwastraffu llai o amser ar Facebook, neu am gerdded 10,000 cam bob dydd... Efallai rwyt wedi addo i ddarllen dy Feibl bob dydd a threulio amser yn siarad gyda Duw.

Nid ydym bob tro yn llwyddo i gadw'r addunedau hyn - erbyn diwedd Ionawr byddwn wedi torri o leiaf un adduned. Byddwn yn teimlo siom nad ydym wedi llwyddo i wneud ein 10,000 cam, neu ein bod wedi methu darllen Gair Duw rhai dyddiau. Y newyddion da yw er mor anffyddlon ydym ni i Dduw, y mae Ef yn raslon a thrugarog, a bob tro yn ffyddlon i ni.

Pwrpas y cynllun darllen hwn yw dy helpu i ddarllen trwy rhai o addewidion Duw yn y Beibl. Mae'r addewidion hyn yr un mor wir heddiw ag yr oedden nhw pan ddatganwyd nhw yn wreiddiol. O addewid Duw i'n maddau ni, i'w addewid i wrando ar ein gweddïau, mae'r cynllun darllen yma i helpu ti i weld ffyddlondeb Duw a'i gofal drosot ti er mwyn i ti fod yn hyderus yn hynny wrth i ti wynebu blwyddyn newydd 2018.

Mae Duw yn siarad gyda ni drwy'r Beibl, felly mae'n bwysig iawn ein bod ni yn ei ddarllen ac yn meddwl yn ofalus beth mae Duw yn ei ddweud wrthym ni drwyddo fo. Efallai y bydd yn help i ti gael papur a beiro wrth law i gymryd nodiadau. Cyn darllen, gweddïa y bydd Duw'n siarad â thi ac yn dy helpu i ddeall ei Air, ac y bydd Ef yn defnyddio'r Beibl i newid dy fywyd. Ar ddiwedd pob astudiaeth mae'n bwysig iawn dy fod yn gweddïo ac yn siarad gyda Duw am beth rwyt ti wedi ei ddysgu a'r pethau rwyt ti eisiau eu newid yn dy fywyd di.

Llwybrau

Dydd 1 – Croeso i 2018

Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd i ni yfory, heb sôn am eleni. Ond mae Duw yn gwybod – mae pob dydd yn ei ddwylo Fe.

Darllen
Salm 37:23-24
Eseia 42:16

- Wrth feddwl am beth bynnag sydd o'th flaen di eleni, sut mae'r addewidion yma'n help?
- Dydi Duw ddim yn addo y bydd popeth yn hawdd, ond beth mae e yn addo i ni yn yr adnodau?

Wyt ti'n wynebu penderfyniadau pwysig neu anodd? Gofyn i Dduw dy arwain drwy bob cam eleni.

Dydd 2 – Ffyddlondeb Duw

Wnest ti adduned blwyddyn newydd? Mae'n wych anelu am bethau da ond yn aml iawn ni'n methu cadw at ein haddunedau yn ein nerth ni'n hunain. OND, mae Duw yn wahanol.

Darllen
Eseia 46:10-11
Salm 119:89-90
Hebreaid 10:23

- Beth wyt ti'n dysgu am Dduw a'i addewidion yn yr adnodau yma?
- Sut mae hyn yn helpu ni fod yn hyderus wrth wynebu blwyddyn arall?

"Diolch i ti Dduw fy mod i'n gallu dibynnu arnat ti. Diolch dy fod di mor wahanol i ni. Helpa fi i fod yn hyderus ynot ti a'th addewidion."

Dydd 3 – Chwilio Am Dduw

Dydyn ni ddim yn gallu gweld Duw, felly wyt ti weithiau'n teimlo ei fod yn bell, ac nad wyt ti'n gallu ei adnabod e?

Darllen
Deuteronomium 4:29
Actau 17:27
Ioan 1:18

- Beth mae Duw yn ei addo fydd yn digwydd i'r rhai sy'n chwilio amdano?
- Pwy anfonodd Duw i'n helpu ni i'w adnabod E?
- Ble ddylen ni ddechrau chwilio am Dduw?

"Diolch i ti am Iesu Grist. Diolch bod e'n dangos i fi yn glir pa fath o Dduw wyt ti. Helpa fi i'th adnabod a'th fwynhau yn fwy bob dydd."

Dydd 4 – Clywed Gweddi

Wyt ti'n gallu bod yn siŵr bod Duw yn dy glywed di pan ti'n gweddïo? Dyma addewidion o'r Beibl i'th helpu di.

Darllen
Salm 91:15
Mathew 6:6-8
1 Thesaloniaid 5:17-18

Llwybrau

- Yn ôl yr addewidion yn Salm 91 a Mathew 6 beth sy'n digwydd pan rydyn ni'n gweddïo?
- Pwy ddylai weddïo? Sut? Ble? Pryd? Pa mor aml? Pa fath o weddi?

Dydi Duw ddim yn dweud bod rhaid i ni weddïo'n hir. Beth fyddai'r amser gorau i ti dreulio amser yn siarad gyda Duw? Wrth deithio i'r ysgol/gwaith/coleg? Cyn codi o'r gwely neu ar ôl mynd i'r gwely? Beth am weddïo'n fyr wrth gerdded o un lle i'r llall, neu wrth gael cawod hyd yn oed? Beth am wneud paned i ti dy hun ar ôl dod adref yn y prynhawn a mynd i'th ystafell i weddïo'n hirach? Cofia bod Duw yn barod i wrando bob amser.

Dydd 5 – Ateb Gweddi

Wyt ti wedi gweddïo sawl gwaith am rywbeth, ond dwyt ti ddim yn credu bod Duw wedi ateb? Ydy Duw yn dweud celwydd felly?

Darllen
1 Ioan 5:14
Mathew 6:8
2 Corinthiaid 12:8-9a

- Yn yr adnodau yma mae Duw yn addo ateb gweddi. Chwilia am resymau pam fyddai Duw ddim yn rhoi yn union beth rydyn ni'n gofyn amdano?
- Weithiau mae Duw yn ateb gyda 'Na' neu 'Dim eto'. Sut mae e'n addo ein helpu ni mewn adegau fel hyn? [Corinthiaid]

Wyt ti wedi cael siom achos dy fod di'n credu bod Duw ddim wedi ateb dy weddi? Gofyn iddo dy helpu di i drystio ei fod e'n gwybod beth sydd orau ar dy gyfer.

Dydd 6 – Hyder Pan Ti'n Ofnus

Mae pethau gwahanol yn gallu codi ofn ar bob un ohonom. Mae'n brofiad diflas iawn, ac mae'n gallu gwneud i ni deimlo'n gorfforol sâl.

Darllen
Philipiaid 4:6-7
Ioan 14:27

- Beth ddylen ni wneud pan ni'n teimlo'n ofnus? [Philipiaid]
- Mae Duw yn addo gwarchod ein calon a'n meddwl – beth yw ystyr hynny?
- Pam ddylen ni weddïo gyda 'diolchgarwch', hyd yn oed pan ni'n pryderu?

Wyt ti'n nabod rhywun sydd mewn sefyllfa ofnus ar hyn o bryd? Beth am dreulio amser yn gweddïo amdano/amdani?

Dydd 7 – Maddeuant

Mae'n siŵr ein bod ni gyd yn falch bod pobl eraill ddim yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn ein meddwl ni weithiau. Rydyn ni gyd wedi gwneud pethau sy'n codi cywilydd mawr arnom ni. Rydyn ni'n siomi ein hunain yn aml iawn, heb sôn am siomi Duw sanctaidd.

Darllen
Eseia 53:5-6
1 Timotheus 1:15
Effesiaid 1:7-8a

Llwybrau

- Mae'r adnodau yn Eseia yn edrych ymlaen at ddyfodiad Iesu Grist. Beth sy'n gorfod digwydd i Grist er mwyn i Dduw allu rhoi 'heddwch' a 'iachâd' i ni?
- Wyt ti'n gallu dod o hyd i unrhyw beth yn yr adnodau hyn sy'n dweud bod rhaid i ni wneud rhywbeth er mwyn haeddu maddeuant?

"Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm a'r Iesu'n llawn.
Myfi yn dlawd heb feddu dim,
Ac yntau'n rhoddi popeth im."

Dydd 8 – Bywyd Newydd

Ar ôl derbyn maddeuant, sut allwn ni fyw bywyd glân?

Darllen
Rhufeiniaid 6:6-7, 11
2 Corinthiaid 5:17

- Sut mae'r adnodau hyn yn disgrifio ein perthynas ni gyda phechod cyn i ni gael maddeuant?
- Beth mae Duw yn addo yw ein perthynas ni gyda phechod nawr?
- Ble allwn ni ddod o hyd i nerth pan ni'n teimlo bod ni'n mynd i syrthio i bechod?

"Diolch am addo bod dy blant yn rhydd o gaethiwed pechod. Helpa fi i fwynhau byw y bywyd glân, newydd yma rwyt ti wedi rhoi i fi, gan bwyso ar y nerth ti'n addo ei rhoi i ni."

Dydd 9 – Unigrwydd

Ai ti yw'r unig Gristion yn dy deulu, neu yn dy ddosbarth, neu yn dy le gwaith? Oes aelod o'th deulu, neu ffrind annwyl wedi marw, ac wyt ti'n gweld eu heisiau'n fawr? Mae'n anodd iawn byw'r bywyd Cristnogol pan rydyn ni'n teimlo'n unig.

Darllen
Genesis 28:15
Eseia 58:9a
Ioan 14:16-18

- Os wyt ti'n unig, pa gysur sydd yn yr addewidion yma? Rhestra nhw.
- Yn Ioan 14, cyn gadael y byd hwn a mynd nôl i'r nefoedd, mae Crist yn addo anfon yr Eiriolwr neu'r Ysbryd Glân. Ystyr Eiriolwr yw:
    - 'Un wedi ei alw i fod wrth ymyl'
    - 'Un sy'n cysuro a nerthu'
    - 'Un sy'n dadlau o'n plaid'

  Tan pryd y bydd yr Eiriolwr yma gyda ni?

Beth am weddïo dros rywun sy'n unig iawn - ffrind, hen berson, gweddw? Gweddïa y byddan nhw'n gwybod bod Duw gyda nhw bob amser. Wyt ti hefyd yn gallu meddwl am ffordd ymarferol i godi calon rhywun unig?

Dydd 10 – Diogelwch

Wyt ti wedi cael y profiad o fod mewn trafferth mawr – ar goll, wedi cael damwain neu yn sâl iawn? Wyt ti'n cofio'r teimlad o ryddhad

pan ddaeth help? Mae Duw yn addo ei fod wrth ein hymyl bob amser yn gofalu amdanom.

Darllen Rhufeiniaid 8:31-39

- Ble mae cariad Duw dros ei blant yn dechrau?
- Astudia'r rhestr yn adnod 35, 38 a 39 a meddwl yn ofalus am bob un o'r peryglon yna. Mae Duw yn addo ei fod e'n gallu gofalu amdanat ym mhob perygl sy'n bosibl i ti eu hwynebu.

"Diolch i ti fy mod i'n hollol ddiogel yn dy ddwylo di. Ti'n addo gofalu amdana i beth bynnag fydda i'n wynebu. Diolch i ti am fy ngharu i trwy Iesu Grist, a diolch dy fod di'n addo y bydda i gyda ti am Dragwyddoldeb."

Dydd 11 – Duw Fel Bugail

Mae'r Salm yma'n sôn am Dduw fel bugail, a ni fel ei ddefaid. Mae'n Salm gyfarwydd iawn, ac mae addewidion hyfryd yma.

Darllen Salm 23

- Yn yr adnod gyntaf mae Duw yn addo rhoi popeth sydd ei angen i'w blant. Cyn edrych nôl ar y Salm, rhestra'r pethau rwyt ti'n credu rwyt ti eu hangen. Sut mae dy restr di'n cymharu gyda'r rhestr sydd yn y Salm? Oes rhai pethau annisgwyl yn y rhestr?
- Beth yw ystyr "y mae fy nghwpan yn llawn" [adnod 5]?

Mae awdur y Salm yma'n dangos ffydd yng ngofal Duw. Mae'n llawenhau bod Duw yn rhoi popeth rydyn ni ei angen – a mwy! Gofyn i Dduw dy help di i gael calon ddiolchgar, ac i gael tangnefedd ym mhob sefyllfa.

Dydd 12 – Bywyd Tragwyddol

Oes rhywun annwyl iawn i ti wedi marw? Wyt ti'n meddwl weithiau beth fydd yn digwydd i ti ar ôl marw? Mae llawer o addewidion yn y Beibl i'n helpu ni.

Darllen Ioan 3:16
Ioan 10:27-28
Rhufeiniaid 6:23

- Duw sy'n rhoi bywyd tragwyddol – i bwy?
- Beth ydyn ni'n haeddu ei dderbyn gan Dduw (Rhufeiniaid 6:23)?
- Ydyn ni'n gallu bod yn sicr o fywyd tragwyddol? Sut?

"Diolch dy fod di'n rhoi bywyd tragwyddol yn anrheg i bwy bynnag sy'n trystio yn Iesu Grist. Diolch bod Iesu Grist wedi cymryd fy nghosb i, fel nad oes rhaid i fi dderbyn cyflog fy mhechod. Helpa fi i beidio cymryd hyn yn ganiataol."

Dydd 13 – Y Nefoedd

Os wyt ti'n blentyn i Dduw, dy gartref di yw'r Nefoedd. Dim ond am amser eithaf byr rydyn ni ar y ddaear yma. Ond sut le fydd y Nefoedd?

Darllen
Ioan 14:2-3
Datguddiad 7:15-17
Datguddiad 21:4
Datguddiad 5:12

- Beth fydd yn y nefoedd?
- Beth fydd ddim yn y nefoedd?
- Yn yr Hen Destament roedd oen yn cael ei aberthu dros bechod pobl Israel. Mae Iesu Grist yn cael ei ddisgrifio fel oen yn Datg 5:12. Pam?
- Sut mae meddwl am addewidion Duw am y nefoedd yn ein helpu ni i fyw ein bywyd ni heddiw?

Ac yna gwyn fy myd
tu draw i'r byd a'r bedd:
caf yno fyw dan foli o hyd
mewn hawddfyd hedd
yng nghwmni'r nefol Oen
heb sôn am bechod mwy,
ond canu am ei ddirfawr boen
byth gyda hwy.
JOHN THOMAS, 1730-1804

Dydd 14 – Addewidion sy'n Rhybuddio

Mae rhybudd yn gallu bod yn beth caredig, er mwyn helpu pobl i osgoi niwed. Mae rhai addewidion difrifol iawn yn y Beibl.

Darllen
2 Corinthiaid 5:10
Salm 9:8
Salm 145:8
Ioan 3:17-18

- Mae Duw yn addo ei fod yn Farnwr a bod rhaid i ni ei wynebu Fe. Ystyr 'Brawdle' yw *judgement seat*, sef y lle mae pobl yn gorfod mynd i gael eu barnu.
- Pa fath o farnwr yw Duw – edrych ar yr adnodau o'r salmau?
- Mae Duw yn addo y gallwn ni osgoi'r gosb rydyn ni'n ei haeddu. Sut? – edrych eto ar yr adnodau yn Ioan 3.
- Beth yw'r rhybudd a beth yw'r cysur sydd yn yr addewidion hyn?

"Helpa fi i sylweddoli dy fod di'n Dduw Sanctaidd sy'n haeddu cael dy ofni. Diolch dy fod yn araf i ddigio. Diolch dy fod yn addo peidio condemnio'r rhai sy'n credu yn Iesu Grist. Helpa fi i rannu'r newyddion da yma gyda fy ffrindiau mewn ffordd ddoeth a dewr."

Dydd 15 – Darllen y Beibl

Weithiau mae adnod o'r Beibl, neu bregeth sy'n esbonio rhan o'r Beibl, yn siarad gyda ni mewn ffordd arbennig. Mae Duw yn addo bod ei Air yn beth byw sy'n siarad â ni mewn ffordd newydd bob dydd.

Darllen

Hebreaid 4:12
Salm 119:105
1 Pedr 2:2
2 Timotheus 3:14-16

- Yn yr adnodau hyn mae Gair Duw yn cael ei ddisgrifio fel peth "byw a grymus", "llymach na chleddyf", "llusern" [lamp], "goleuni" a "llaeth ysbrydol". Beth mae pob un o'r disgrifiadau hyn yn ei ddweud wrthyt ti am y Beibl?
- Mae Duw yn addo bod ei Air yn mynd i'th helpu di i dyfu fel Cristion. Ond mae darllen y Beibl yn gallu bod yn anodd! Beth all dy helpu di i ddeall y Beibl yn well ac i'w ddarllen e bob dydd?

Beth am ddarllen y Beibl gyda ffrind? Neu beth am drafod nodiadau Llwybrau gyda ffrind? Cyn darllen y Beibl, cofia weddïo y bydd yr Ysbryd Glân yn dy helpu di i ddeall yr adran. Os oes gen ti gwestiwn, byddai Cristion hŷn, athro Ysgol Sul neu weinidog dy eglwys wrth eu bodd yn trafod gyda thi - paid bod ofn gofyn.

Dydd 16 – Doethineb

Wyt ti'n teimlo weithiau y byddet ti'n hoffi dod o hyd i adnod fydd yn dweud yn union wrtho ti beth i wneud ym mhob sefyllfa? Ond, nid rhestr lawn o reolau a chyfarwyddiadau yw'r Beibl. Er hynny, mae Duw yn addo bod y Beibl yn gallu'n helpu ni i fod yn ddoeth wrth fyw bywyd bob dydd.

Darllen

Iago 1:5
1 Pedr 2:2
Diarhebion 19:20
Iago 3:17
1 Corinthiaid 1:25

- Mae Iago 1:5 yn addo bod Duw yn rhoi doethineb os ydyn ni'n gofyn amdano. Ond mae 1 Pedr 2:2 a Diarhebion 19:20 yn sôn am ddarllen y Gair (sef y Beibl), ac am wrando a derbyn cyngor hefyd. Beth yw'r camau gwahanol sydd angen eu dilyn bob dydd er mwyn tyfu mewn doethineb?
- Ydi Duw wedi rhoi Cristion doeth yn dy fywyd? Beth am weddïo gan ddiolch i Dduw amdano/amdani. Beth rwyt ti wedi ei ddysgu o'r person hynny? Beth am fynd at Gristion doeth er mwyn gofyn am gyngor am ryw sefyllfa benodol sy'n dy boeni?
- Sut mae Iago 3:17 ac 1 Corinthiaid 1:25 yn disgrifio doethineb Duw? Beth mae'r adnodau yn ei ddweud am ddoethineb y byd?
- Wyt ti'n gallu meddwl am rhyw fater moesol, cyfoes, lle mae barn Duw yn wahanol iawn i farn y byd?

"O Dduw, weithiau rydw i'n teimlo y byddai'n llawer haws os byddai rheolau pendant ar gyfer bob sefyllfa. Ond, rwy'n gwybod dy fod yn gofyn i fi dreulio amser yn y Beibl er mwyn tyfu yn ddoeth. Diolch dy fod yn addo rhoi doethineb i fi pan fydda i'n gofyn. Helpa fi adnabod ffolineb y byd, a charu dy ddoethineb Di."

Llwybrau

Dydd 17 – Llawenydd

Mae Duw yn rhoi addewidion hyfryd i ni, er mwyn i ni fod yn llawen. Mae llawenydd y Cristion yn wahanol i hapusrwydd. Dydi e ddim yn dibynnu ar beth bynnag sy'n digwydd i ni. Ond, mae Duw yn ein llanw ni gyda llawenydd dwfn, gwych a melys.

Darllen
Eseia 55:12
Habacuc 3:17-19
Ioan 15:11-15

- Mae'n amlwg nad yw mynyddoedd yn gallu canu na choed yn gallu curo dwylo. Beth mae'r barddoniaeth hyfryd yma yn Eseia yn trio ei gyfleu?
- Dydi'r adnodau yn Habacuc ddim yn cychwyn yn hapus iawn, ond mae'n gorffen gyda llawenydd. Pa addewidion sydd yn yr adnodau i'th helpu di i fod yn llawen hyd yn oed pan fydd pethau trist yn digwydd?
- Mae'r adnodau yn llyfr Ioan yn dyfynnu geiriau Crist i'w ddisgyblion. Mae'n amlwg bod Iesu Grist eisiau i'w llawenydd nhw fod yn 'gyflawn'. Ein perthynas gyda Christ yw sail y llawenydd. Gwna restr o'r pethau sy'n rhoi llawenydd i ti oherwydd dy berthynas gyda Christ – dechreua yn yr adnodau hyn, ac ychwanega at y rhestr.

"Dy gael di, Iesu, gyda mi
Yw'r trysor gorau sydd.
Ti yw'm nod, ti yw'm rhan,
Fy llawenydd i a'm cân,
Ac fe'th garaf mwy."

Dydd 18 – Goleuni

Mae tywyllwch yn aml yn codi ofn arnom ni. Wyt ti weithiau yn dychmygu bod pob math o bethau bygythiol yn llechu yn y tywyllwch? Ond mae golau yn cael ei gysylltu â gobaith, daioni a diogelwch. Mae nifer o addewidion hyfryd yn y Beibl ynglŷn â goleuni.

Darllen
Salm 119:105
Ioan 8:12
Mathew 5:14-16
Datguddiad 21:22-25

- Mae Duw yn addo nad oes angen i ti fod yn y tywyllwch. Ble ac at bwy ddylen ni fynd i gael goleuni yn ein bywyd?
- Mae Crist yn dweud mai Fe yw 'goleuni'r byd'. Ond mae e hefyd yn dweud bod ei ddisgyblion yn 'oleuni'r byd'. Beth yw ystyr hyn? Sylwa bod e ddim yn dweud bod angen i ti drio byw yn dda er mwyn gwneud dy hun yn oleuni, ond mae'n dweud bod ei blant eisoes yn oleuni, ac felly bod angen i ni fyw mewn ffordd sy'n adlewyrchu hynny.
- Mae'r adnodau yn llyfr Datguddiad yn sôn am y nefoedd. Beth yw'r goleuni sydd yno? Beth yw'r addewid sydd ar ddiwedd adnod 25?

"Diolch bod dy ffyrdd di yn olau, yn ddiogel ac yn dda. Diolch dy fod wedi disgleirio dy olau di i mewn i dy blant. Helpa fi i ddangos y golau hynny yn glir yn fy mywyd i. Pan rydw i'n teimlo'n drist wrth weld y

Llwybrau

tywyllwch sydd yn y byd hwn, diolch fy mod i'n gallu edrych ymlaen i fod yn dy olau Di am byth yn y nefoedd."

Dydd 19 – Bod yn hael

Dydi Duw ddim yn greulon, nac yn annheg. Mae'n addo ei fod yn hael ac yn llawn gras. Mae'n rhoi i rhai fel ni sydd ddim yn haeddu derbyn dim.

Darllen
Ioan 1:16
1 Timotheus 6:17-19
Actau 20:35
Mathew 25:40

- Mae'r geiriau 'gras ar ben gras' yn cyfleu bod Duw yn rhoi yn hael iawn, ac yn dal i roi a rhoi. Dyna'r fath un yw Duw! Beth am restru rhai o'r ffyrdd mae e wedi dy fendithio di?
- Sut mae'r adnodau yn 1 Timotheus yn disgrifio cyfoeth y byd hwn? Beth mae'n ei ddweud am y cyfoeth sy'n dod oddi wrth Dduw? Sut mae hyn yn dy helpu di i beidio dal gafael yn rhy dynn ar bethau'r byd hwn?
- Wrth feddwl gymaint rwyt ti wedi derbyn gan Dduw, pa effaith ddylai hyn ei gael arnat ti? Beth mae Duw yn addo fydd yn digwydd i ti os byddi'n dangos haelioni?

Mae sawl ffordd o adlewyrchu caredigrwydd Duw. Mae'n golygu mwy na rhoi i elusen, er bod hynny'n beth da, wrth gwrs. Beth arall allwn ni ei roi? I bwy? Gofyn i Dduw dy helpu di i roi yn hael, ac i wneud hynny yn llawen.

Dydd 20 – Gorffen y gwaith

Wyt ti wedi dechrau rhywbeth, ac wedi rhoi lan cyn gorffen? Efallai dy fod wedi dechrau ar gynllun ffitrwydd blwyddyn newydd, ond falle dy fod wedi llithro nôl i dy hen *habits* drwg yn barod? Neu falle dy fod wedi dechrau rhyw brosiect crefft ac mae e mewn rhyw ddrâr yn dal heb ei orffen? Mae Duw yn addo gorffen ei waith ynddo ni.

Darllen
Philipiaid 1:2-11

- Pa resymau sydd gan Paul i ddiolch i Dduw am Gristnogion Philipi? Beth am ddiolch i Dduw am Gristnogion sy'n dod a llawenydd i ti, a beth am ofyn i Dduw dy helpu di i ddod a llawenydd i eraill?
- Mae addewid hyfryd yn adnod 6. Sylwa'n arbennig:
  - Beth sydd wedi digwydd yn barod?
  - Beth sy'n mynd i ddigwydd?
  - Pryd mae hyn yn mynd i ddigwydd?
  - Pwy sy'n mynd i wneud y gwaith?
- Er bod Paul (awdur y llythyr hwn) yn diolch am Gristnogion Philipi, mae'n gwybod nad yw Duw wedi gorffen gweithio ynddyn nhw eto. Beth yn union mae'n gweddïo drostyn nhw?
- Trwy bwy mae'r gwaith yn digwydd, a phwy fydd yn cael y clod?

"Diolch dy fod yn addo gorffen y gwaith rwyt ti wedi ei ddechrau yn fy mywyd i. Diolch mai dy waith Di yw e, ac mai ti'n sy'n rhoi y nerth a'r gallu. Helpa fi felly i dyfu fel Cristion wrth i fi ddarllen dy air a'th fwynhau di."

Llwybrau

Dydd 21 – Gweddïo amdanom ni

Mae clywed bod rhywun yn gweddïo amdanom ni yn gallu codi'n calon. Mae gweddïo dros rhywun yn ffordd hyfryd i ddangos cariad, consyrn a chefnogaeth. Wrth weddïo rydyn ni'n cyflwyno rhywun i ofal y Duw sy'n gallu newid sefyllfa. Mae Iesu Grist ei hun yn dweud ei fod yn gweddïo dros ei ddilynwyr - dyna gysur hyfryd i ni!

Darllen
Hebreaid 7:25
Ioan 17:9-11, 13-18, 20, 24

- Pa mor aml mae Iesu Grist yn gweddïo amdanom ni, ei blant?
- Beth mae'n gweddïo dros ei blant? Gwna rhestr wrth fynd yn fanwl drwy'r adnodau yn Ioan. Beth mae'n ei rhoi i'n helpu ni?
- Pam mae'r byd yn casáu Cristnogion? [Adnod 14]. Oes cysur i ti yn y geiriau hyn?
- Mae Crist yn dweud y geiriau hyn wrth ei ddisgyblion, sut wyt ti'n gwybod ei fod e'n addo gweddïo drosot ti hefyd? [Adnod 20]
- Beth yw pen draw'r daith i Gristnogion? [Adnod 24]

"Rwy'n cyfaddef ei fod yn anodd bod yn Gristion yng nghanol pobl sydd ddim yn dy garu Di. Diolch bod Iesu Grist yn addo ei fod e nawr yn gweddïo am ei blant, ac amdana i. Diolch ei fod yn addo fy helpu ac yn addo fy nghadw yn ddiogel hyd nes y bydda i'n hollol saff gyda Fe yn y nefoedd."

Dydd 22 – Addewidion mewn enwau [I]

Wyt ti'n gwybod beth yw ystyr dy enw? Heddiw, pan fydd rhieni yn dewis enw i'w plentyn, dydyn nhw ddim fel arfer yn meddwl yn ddwys beth yw ystyr yr enw. Ond, mae enwau Duw yn golygu rhywbeth – mae'n addo mai dyma sy'n wir am ei gymeriad.

Darllen
Exodus 3:13-15 [Yaweh]
Genesis 17:1 [El Shadai]
Genesis 21:33 [El Olam]
Genesis 15:2 [Adonai]
Jeremeia 23:6 [Yaweh Tsidkenu]
Rhufeiniaid 8:31

- Pan mae Moses yn gofyn i Dduw beth yw ei enw, mae'n ateb 'Yahweh', sef 'Ydwyf'. Dyma'r un enw sy'n cael ei ysgrifennu fel 'ARGLWYDD' yn yr Hen Destament. Wrth ddefnyddio'r enw hwn mae Duw yn addo na fydd yn newid dim, a'i fod yn gyflawn, a bod pob bywyd yn dod ohono Fe.
- Ond dydi un enw ddim yn ddigon i ddisgrifio holl gymeriad Duw! Beth wyt ti'n ei ddysgu am Dduw wrth ddarllen rhai o'r enwau eraill? Beth am ddefnyddio'r enwau er mwyn dy helpu i addoli Duw?
- Mae'r adnod o lyfr Rhufeiniaid yn anhygoel! Rwyt ti'n gallu bod mewn perthynas gyda'r Duw mawr yma trwy Iesu Grist!

Mae Duw yn llond pob lle,
Presennol ymhob man;
Y nesaf yw efe
O bawb at enaid gwan;
Wrth law o hyd i wrando cri:
Nesau at Dduw sy dda i mi.

Llwybrau

Dydd 23 – Addewidion mewn enwau [ii]

Ddoe fe sylwon ni bod Duw yn ARGLWYDD mawr sy'n haeddu cael ei addoli. Ond mae llawer o bethau eraill i'w dysgu am Dduw. Beth arall mae'n addo amdano fe ei hun?

Darllen
Genesis 22:14 [Jehofa Jireh]
Exodus 15:26(b) [Jehofa Rapha]
Barnwyr 6:24 [Jehofa-shalom]
Rhufeiniaid 8:15
1 Ioan 4:8

- Beth yw'r cysur sydd i ti ym mhob un o'r enwau yma?
- Sut mae'n dy helpu di i wynebu pa bynnag broblem sy'n pwyso arnat ti heddiw?
- Mae llawer o enwau eraill ar Dduw – beth am drio sylwi arnyn nhw pan fyddi'n darllen y Beibl, neu'n clywed darlleniad o'r Beibl?

"Diolch dy fod yn haeddu cael dy addoli am bwy wyt ti. Helpa fi i ddod i'th nabod a'th garu yn fwy bob dydd. Er dy fod yn Arglwydd nerthol, helpa fi i ryfeddu at y ffaith dy fod yn Dad cariadus i fi trwy Iesu Grist."

Dydd 24 – Dilyn ffyrdd Duw [i]

Mae trefn Duw ar ein cyfer ni yn dda. Fyddwn ni ddim yn hapus wrth grwydro oddi wrtho. Ac mae Duw yn addo pob math o fendithion i'w blant pan fyddan nhw'n cadw'n agos ato.

Darllen
Diarhebion 3: 21-24
Mathew 12:50
Ioan13:17
Philipiaid 4:9

Mae'r Beibl yn dysgu bod ni'n dod yn blant i Dduw am fod Iesu Grist wedi cadw'r holl orchmynion yn berffaith mae ei gyfiawnder ef yn cael ei rhoi i ni. Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni, er mwyn i ni ddod yn gyfiawnder Duw ynddo ef. (2 Corinthiaid 5:21)

- Ond mae Duw yn annog ei blant i garu ei ddeddfau, ac mae'n rhoi addewidion gwych i'n hannog. Beth mae'n ei addo?
- Mae rhai pobl yn credu mai peth diflas a chul yw bod yn Gristion. Pa fath o fywyd sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adnodau hyn?

Gofyn i Dduw dy helpu i ddilyn ac i garu ei ffyrdd Ef. Gweddïa am ffrind i ti sydd falle yn crwydro ar hyn o bryd. Meddylia sut wyt ti'n gallu annog dy ffrind.

Dydd 25 – Dilyn ffyrdd Duw [ii]

Pan fydd plentyn bach yn chwarae gyda rhywbeth peryglus, bydd rhiant neu warchodwr caredig yn ei rhybuddio. Am fod Duw yn ein caru ni, mae e hefyd yn rhoi addewidion sy'n rhybuddio ni i osgoi pethau niweidiol.

Llwybrau

Darllen
1 Pedr 5:8
Diarhebion 28:13-14
Salm 36:10-12
Diarhebion 28:13

- Mae celwydd y Diafol yn trio dy ddenu di oddi wrth ffyrdd Duw. Pa gyngor sydd yn yr adnodau yma i'th helpu di i beidio crwydro oddi wrth Dduw?
- Beth mae 'bod yn wyliadwrus' yn ei olygu yn ymarferol i ti?
- Rydyn ni i gyd yn cwympo. Beth mae'r adnodau yn dy annog i wneud os byddi di'n cwympo? Mae'r adnodau yn addo bod Duw yn ffyddlon ac yn maddau.

Dyma ran o weddi'r brenin Dafydd, pan mae'n cyffesu ei bechod ac yn gofyn i Dduw am faddeuant:

Crea galon lân ynof, O Dduw, rho ysbryd newydd cadarn ynof. Paid â'm bwrw ymaith oddi wrthyt, na chymryd dy ysbryd sanctaidd oddi arnaf. Dyro imi eto orfoledd dy iachawdwriaeth, a chynysgaedda fi ag ysbryd ufudd.
Salm 51:10-12

Dydd 26 – Pobl yn ein herbyn

Profiad diflas iawn yw teimlo bod pobl yn ein camddeall, neu'n dweud celwydd amdanom. Mae'n brifo pan fydd cyd-ddisgyblion neu gyd-weithwyr yn ein trin ni'n annheg. Weithiau gallwn deimlo bod ni ddim yn ffitio mewn o gwbl. Beth sydd gan addewidion Duw i'w ddweud wrthon ni mewn sefyllfa fel hyn?

Darllen
Ioan 1:11
Mathew 5:11-12
Ioan 15:19
2 Corinthiaid 12:10
Eseia 43:1(b)-5(a)

- Beth oedd ymateb y byd i Iesu a beth yw agwedd y byd wedi bod at Gristnogion ar hyd yr amser?
- Pam mae Crist yn dweud 'Gwyn eu byd...' felly?
- Beth wyt ti'n credu yw ystyr 'Pan wyf wan, yna rwyf gryf'?
- Mae Duw yn addo y bydd pobl yn ein herbyn, ond mae'n addo cysur mawr i ti yn Eseia. Cer drwy'r adnodau yn ofalus a sylwa ar bob un cysur.

"O Dduw, mae'n brifo yn ofnadwy pan fydd pobl yn gas i fi am fy mod yn Gristion. Helpa fi i wybod dy fod di yn fy ngharu ac yn fy nghysuro. Bydd gyda Christnogion sy'n cael eu trin yn greulon iawn mewn rhai rhannau o'r byd. Bydd yn agos iawn atyn nhw a'u teuluoedd."

Dydd 27 – Hyder i ddweud wrth eraill

Wyt ti'n teimlo'n swil iawn i sôn wrth bobl eraill am Iesu Grist? Pa addewidion sydd yn y Beibl i roi hyder i ni?

Darllen
Mathew 4:19
Luke 12:11-12
Jeremiah 1:7-9
Eseia 55:10-11
Rhufeiniaid 1:16

Llwybrau

- Os yw Duw yn gofyn i ti wneud rhywbeth, mae'n addo y bydd yn dy helpu di hefyd. Sut?
- Nid ti yw'r unig un sy'n teimlo'n swil neu yn ofnus. Wyt ti'n gallu dod o hyd i dystiolaeth yn yr adnodau sy'n profi hynny?
- Pam ddylen ni fod yn hyderus yng Ngair Duw?

"Diolch i ti Dduw am bob un sydd wedi sôn wrtho fi am dy gariad yn Iesu Grist. Diolch am bobl sydd wedi bod yn ufudd i ti, ac wedi mynd i wledydd eraill neu sefyllfaoedd anodd i dystiolaethu amdanat. Rho'r geiriau, y cyfle, a'r hyder i fi garu fy ffrindiau ac i sôn wrthyn nhw amdanat ti."

Dydd 28 – Ein Brenin

Pwy yw dy arwr? Wyt ti'n dilyn hanes y *celebs*? Mae'n gallu bod yn hwyl ac yn ddiddorol, ond ydyn ni wir yn gallu eu hedmygu nhw? Mae Duw yn addo nad oes neb na dim yn cymharu gyda Fe.

Darllen Salm 96

- Sut mae Duw yn wahanol i'r holl dduwiau/eilunod mae pobl wedi creu i'w hunain?
- Wyt ti'n gallu dod o hyd i'r disgrifiadau o Dduw fel Creawdwr, Brenin a Barnwr? Aros am funud i feddwl am y 3 peth yna mae Duw yn addo am ei hun. Sut mae'n dy helpu i wynebu bob dydd?
- Cer drwy'r adnodau yn sylwi ar yr holl anogaethau gwahanol i addoli. Mae'n amlwg bod addoli yn golygu llawer mwy na chanu. Beth yw gwir addoliad?

Tydi sydd deilwng oll o'm cân
Fy Nghrëwr mawr a'm Duw;
Dy ddoniau Di o'm hamgylch maent
Bob awr yr wyf yn byw.

O na foed tafod dan y rhod
Yn ddistaw am dy waith
Minnau fynegaf hyd fy medd
Dy holl ddaioni maith.

Dydd 29 – Dim ffafriaeth

Wyt ti'n teimlo nad wyt ti'n bwysig? Fyddet ti'n hoffi bod yn fwy golygus/yn fwy clyfar/yn fwy llwyddiannus? Rwyt ti'n bwysig i Dduw. Mae wedi rhoi ei Fab er dy fwyn di! Mae ganddo addewidion hyfryd i ni.

Darllen Salm 115:11-13
1 Samuel 16:7

- Ydi addewidion Duw ar gyfer un math o bobl yn unig? Ydi e'n dangos ffafriaeth? Dydi 'bach' a 'mawr' ddim yn cyfeirio at faint corfforol – mae'n cyfeirio at wahanol oed, statws, cyfoeth, llwyddiant, dylanwad, gallu academaidd, gallu corfforol – popeth.
- Dydi'r allanol ddim yn bwysig i Dduw. Beth sydd yn bwysig?
- Gofyn i Dduw dy helpu di a dangos i ti sut i ddatblygu harddwch mewnol. Wyt ti'n sylwi ar yr harddwch yna mewn pobl eraill? Pwy yw'r person harddaf sydd wedi bod erioed?

"Diolch fy mod i'n gallu bod yn hyderus yn dy addewidion di, sut bynnag ydw i'n teimlo amdanaf fi fy hun. Diolch bod dy safonau di yn wahanol i'r byd. Helpa fi i garu Iesu Grist yn fwy bob dydd, i wario mwy o amser yn ei gwmni ac i fod yn debycach Iddo."

Dydd 30 – Y Dechrau a'r Diwedd

Nôl ar Ionawr 1af fe wnaethon ni gyfaddef bod dim syniad gyda ni beth sydd o'n blaen ni eleni. Mae Duw yn gwybod y dechau a'r diwedd i bopeth. Mae'n gwybod popeth, ac yn gallu gwneud popeth. Felly pan mae'n dweud beth sy'n mynd i ddigwydd, ni'n gallu bod yn hollol sicr y bydd yn digwydd – mae Duw yn addo.

Darllen
Datguddiad 5:9, 13
Datguddiad 22:13
2 Corinthiaid 1:20

- Mae llyfr y Datguddiad yn rhoi hanes diwedd y byd i ni. Mae'n sôn am fuddugoliaeth Duw, a gogoniant Crist yn y Nef. Pam fydd Iesu Grist yn cael ei addoli yn y Nef?
- Mae'r Hen Destament yn pwyntio mlaen at ddyfodiad Iesu Grist. Mae'r Testament Newydd yn gorffen gydag Iesu Grist ar ei orsedd, a'i holl blant o bob gwlad a chanrif yn ei addoli. Iesu Grist yw canolbwynt y Beibl. Sut mae'r adnod yn Datguddiad 22 yn crynhoi hyn?
- Sut mae'r adnod yn Corinthiaid yn dy helpu di i fod yn hollol hyderus yn holl addewidion Duw?

Ymgrymed pawb i lawr
I enw'r addfwyn Oen,
Yr enw mwyaf Mawr
Erioed a glywyd sôn:
Y clod, y mawl, y parch a'r bri
Fo byth i enw'n Harglwydd ni.

Dydd 31 – Edrych nôl

Ar ddechrau'r mis fe wnaethon ni drio edrych ymlaen. Beth am orffen y mis gan edrych yn ôl ar yr addewidion gwahanol? Beth wyt ti angen ei glywed eto?

Darllen
Actau 20:32
1 Pedr 2:2
2 Timotheus 3:14-15

- Mae'r adnodau yma i gyd yn dangos mor bwysig yw'r Beibl, sef Gair Duw.
- Beth mae'r darlun o Air Duw fel llaeth yn ei awgrymu? Pa mor aml a sut y dylen ni fynd at y Beibl felly?
- Mae bob amser mwy a mwy o fendithion i'w cael yng Ngair Duw. Felly beth am fynd nôl i edrych eto ar rai addewidion? Beth am drio dysgu rhai ohonyn nhw? Beth am eu hysgrifennu mewn llyfr nodiadau neu ddyddiadur? Beth am brintio un o'r addewidion a'i fframio ar dy wal? Beth am gadw un o'r addewidion ar sgrin dy ffôn?

"Diolch am dy holl addewidion yn y Beibl. Diolch fy mod i'n gallu dy drystio dy fod yn dweud y gwir yn dy Air. Diolch fy mod yn gallu cael help newydd bob dydd yn dy Air. Helpa fi i gofio, i ddeall ac i gredu dy Air yn fwy ac yn fwy."

Llwybrau

Oes gen ti gwestiynau am yr hyn rydym wedi darllen dros y wythnosau diwethaf? Danfona neges i neges@llwybrau.org neu defnyddia'r ddolen ar dop ein gwefan. Mae hefyd modd danfon neges atom dros Facebook, Twitter neu Instagram - @Llwybrau.